

Deddf Diogelu Data 1998- Polisi

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Fersiwn	Disgrifiad/rheswm dros y newid	Awdur	Awdurdod	Dyddiad cyhoeddi
1	Cyhoeddiad gwreiddiol	IWO (IRU)		30/4/2004
2	Adolygiad	IWO (IRU)		7/4/2010
3	Adolygiad	DOC/(IGU)		8/10/2012
3.1	Diwygiadau	DS (CICS)		26/10/2012
4.0	Adolygiad	DOC (IGU)		24/3/2015

POLISI DIOGELU DATA

Mae diogelu data'n cynnwys set o drefnau statudol i reoli'r defnydd o wybodaeth bersonol, gan felly ddiogelu cyfrinachedd a phreifatrwydd unigolion. Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn berthnasol i ddata personol sy'n cael ei ddal ar wahanol ffurfiau, boed ar bapur, cyfrifiadur, microfiche, tapiau teledu cylch caeedig neu unrhyw gyfrwng arall.

Mae'r Cyngor yn gwneud cryn dipyn o ddefnydd o wybodaeth bersonol yn ei holl feysydd gwaith, ac felly mae'n bwysig ei fod yn cadw'n bendant at y Ddeddf. Mae'r polisi hwn yn ddatganiad o'r hyn mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud i sicrhau cydymffurfiaid gyda'r ddeddfwriaeth. Nid yw'n ddatganiad o'r modd y caiff cydymffurfiaid ei gyflawni; bydd hwn yn fater i drefnau gweithredol.

Mae cyfrifoldeb ar bob Pennaeth Gwasanaeth i sicrhau fod gan eu Gwasanaeth sail gyfreithlon dros brosesu data personol. Bydd methiant i gyflawni'r amodau ar gyfer data personol a data personol sensitif yn golygu fod y Cyngor yn mynd yn groes i Ddeddf Diogelu Data 1998 ac felly'n agored i gamau gorfodi posibl gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

YR EGWYDDORION

Mae'r Ddeddf yn cynnwys wyth egwyddor diogelu data y mae'n rhaid i'r Cyngor (fel rheolwr data) gadw atynt wrth ddelio gyda gwybodaeth bersonol.

1. Rhaid prosesu data personol yn deg ac yn gyfreithlon.

Er mwyn prosesu **data personol yn gyfreithlon**, dylech sicrhau bod rhesymau digonol dros wneud hynny. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid cyflawni o leiaf un o'r amodau a ganlyn

- Caniatâd yr unigolyn (nid oes rhaid iddo fod yn benodol).
- Mae angen prosesu'r data er mwyn cyflawni neu gyda'r bwriad o sefydlu contract gyda'r unigolyn.
- Mae angen prosesu er mwyn cydymffurfio gydag unrhyw ymrwymiad cyfreithiol.
- Mae angen prosesu er mwyn diogelu buddiannau hanfodol yr unigolyn
- Mae angen prosesu'r data er mwyn gweinyddu cyfiawnder, cyflawni swyddogaethau dan unrhyw ddeddf neu gyflawni unrhyw swyddogaethau eraill o natur gyhoeddus a arferir er lles y cyhoedd ar gyfer unrhyw berson.
- Mae angen prosesu'r data i bwrpas buddiannau cyfreithiol cyfiawn a weithredir gan y sefydliad ac eithrio lle bod prosesu'r data yn cael effaith negyddol ar hawliau a rhyddid yr unigolyn.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Ar gyfer **data personol sensitif**, rhaid cymryd gofal arbennig ac mae'r amodau ar gyfer prosesu yn llawer mwy caeth.

- a. Caniatâd penodol yr unigolyn.
- b. Mae angen prosesu at ddibenion cyflogaeth.
- c. Mae angen prosesu i ddiogelu buddiannau hanfodol yr unigolyn neu unigolyn arall lle na ellir rhoi caniatâd.
- d. Mae'r unigolyn eisoes wedi rhyddhau'r wybodaeth yn gyhoeddus.
- e. Mae angen prosesu'r data i bwrpas achos cyfreithiol.
- f. Mae angen prosesu'r data at ddibenion gweinyddu cyfiawnder.
- g. Mae angen prosesu'r data er mwyn monitro cyfleoedd cyfartal.
- h. Mae angen prosesu'r data i bwrpas meddygol.

Er mwyn bodloni'r gofyniad o sicrhau **tegwch**, mae'n rhaid derbyn data personol mewn ffordd deg (nid drwy dwyll neu gamarwain) a dylid rhoi gwybod i unigolion **pwyr** sy'n prosesu eu data ac i ba **bwrpas** y caiff ei ddefnyddio.

Dylai unrhyw ffurflenni a ddefnyddir i gasglu data personol felly gynnwys Hysbysiad Prosesu Teg priodol e.e.

Deddf Diogelu Data 1998: CBS Conwy yw'r rheolwr data at ddibenion y Ddeddf. Bydd yr wybodaeth ar y ffurflen hon yn cael ei defnyddio i bwrpas [xxxxxxxxxxxxx]. Gellir rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau / adrannau lle bod hyn yn cyd-fynd â darpariaethau'r Ddeddf.

2. Dylid ond cael data personol ar gyfer un neu ragor o bwrpasau penodol.

Ni ddylid defnyddio data a gasglwyd ar gyfer un pwrpas at bwrpas hollol wahanol heb ganiatâd yr unigolyn.

3. Bydd data personol yn ddigonol, perthnasol ac ni fydd yn ormodol.

Dylech gasglu'r lefel isafswm o wybodaeth sydd angen i gyflawni eich bwriad.

4. Bydd data personol yn fanwl gywir ac yn cael ei ddiweddarau.

Dylai'r Cyngor wirio bod gwybodaeth personol yn fanwl gywir wrth ei derbyn a chynnal gwiriadau o bryd i'w gilydd i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn gywir.

5. Ni fydd data personol yn cael ei gadw am hirach nac sydd angen.

Dylid gwaredu data personol yn ddiogel ac/neu'n gyfrinachol unwaith nad oes bellach ei angen at ei bwrpas penodedig.

6. Dylid prosesu data personol yn unol â hawliau'r unigolyn dan y Ddeddf.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mae'r Ddeddf yn rhoi hawliau i unigolion, gan gynnwys yr hawl i wybod pa wybodaeth mae'r Cyngor yn dal amdano / amdani; yr hawl i gywiro gwybodaeth anghywir a'r hawl i atal prosesu penodol.

7. Bydd data personol yn cael ei gadw'n ddiogel.

Dylech gymryd camau i sicrhau na chaiff data personol ei ryddhau i unigolion heb eu hawdurdodi.

e.e. gwirio pwy yw galwyr cyn datgelu gwybodaeth bersonol dros y ffôn; cadw gwybodaeth bersonol mewn man y gellir ei gloi â gorïad; peidiwch â gadael papurau'n cynnwys gwybodaeth bersonol mewn man amlwg ar ddesgiau.

Dylech waredu gwybodaeth bersonol yn ddiogel gan ddefnyddio peiriant rhwygo neu ddulliau diogel eraill o waredu, fel yr amlinellir yn y Polisi Gwaredu Gwastraff Cyfrinachol.

Wrth anfon data i drydydd parti i'w brosesu, mae'n arfer da i sicrhau bod cytundeb ysgrifenedig rhwng y Cyngor a'r trydydd parti – cysylltwch â'r Uned Llywodraethu Gwybodaeth am gyngor.

8. Ni chaiff data personol ei drosglwyddo tu allan i Ardal Economaidd Ewrop oni bai fod gan y wlad honno fesurau i sicrhau lefel digonol o sicrwydd mewn perthynas â phrosesu data personol.

Mae hyn hefyd yn berthnasol i wybodaeth a gyhoeddir ar y rhyngwrwd. Gallai gwybodaeth gael ei throsglwyddo dan rai amgylchiadau, e.e., caniatâd unigol, trosglwyddo mewn perthynas ag achosion cyfreithiol, bod yr wybodaeth ar gofrestr gyhoeddus.

DIOGELU PLANT A PHOBL DDIAMDDIFFYFN

Er y gwneir pob ymdrech i gydymffurfio gydag ysbryd a llythyren y Ddeddf Diogelu Data lle trosglwyddir gwybodaeth i'r Cyngor yn ymwneud ag unigolion a grwpiau y mae'n hysbys sydd yn, neu'n debygol o, ddod i gysylltiad â phlant ac / neu bobl ddiameddiffyn a allai beri risg iddynt, bydd yn angenrheidiol i gydbwysu'r risg a berir a hawl yr unigolyn i breifatrwydd yn erbyn ei gilydd.

Os yw gwybodaeth a dderbynnir gan y Cyngor yn ymwneud ag unrhyw unigolyn/unigolion a allai ddod i gyswllt mewn unrhyw ffordd â phlant ac/neu unigolion ddiameddiffyn yn codi pryderon ynglŷn â pha mor briodol yw hi i'r unigolyn/unigolion ddod i gyswllt â phlant ac/neu bobl ddiameddiffyn ac/neu les plant ac/neu unigolion ddiameddiffyn o'r fath yn y dyfodol, bydd y Cyngor yn ystyried bod dyletswydd arno i rannu'r wybodaeth honno. Gellid ei rhannu gydag unrhyw unigolyn, cwmni, grŵp, pwyllgor, Heddlu a Chyngor priodol neu asiantaeth arall os penderfynir ar ôl cydbwysu'r risg bod angen rhannu gwybodaeth o'r fath.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n ystyried diogelu plant yn arbennig yn ystyriaeth sy'n bwysicach na'r hawl i ddiogelu gwybodaeth.

GWRTHRYCH AM WYBODAETH

Mae hawl gan unigolion (gwrthrych y data) wneud cais am fynediad i unrhyw wybodaeth bersonol a gedwir amdanynt.

Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno eu cais ar bapur (fel arfer drwy lenwi ffurflen cais gwrthrych am wybodaeth), darparu prawf adnabod a thalu ffi o £10. Mae gan y Cyngor 40 diwrnod calendr i ymateb.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mae'r cyfnod o 40 diwrnod yn dechrau ar y diwrnod y mae gan Gonwy fel y rheolwr data yr holl wybodaeth sydd angen i adnabod gwrthrych y data a chanfod y data a ofynnwyd amdano, ynghyd â'r ffi.

RHANNU GWYBODAETH

Nid yw'r Ddeddf Diogelu Data yn rhwstr i rannu gwybodaeth ond yn hytrach mae'n darparu fframwaith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol am bobl yn cael ei rhannu'n briodol. Ni ddylai staff oedi cyn rhannu gwybodaeth bersonol er mwyn atal cam-drin neu niwed difrifol, mewn argyfwng neu mewn sefyllfaoedd pan fo bywyd rhywun mewn perygl. Os oes pryderon ynghylch materion amddiffyn plant neu oedolion, fe ddylid dilyn y gweithdrefnau perthnasol.

Datblygwyd Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) fel dull ymarferol ar gyfer rhannu gwybodaeth ar draws sector cyhoeddus Cymru, a bu i'r Cyngor lofnodi'r ddogfen ym mis Mehefin 2011.

Mae rhannu gwybodaeth yn allweddol i gyflwyno gwasanaethau cydgysylltiedig. Mae'n rhaid gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid rhannu gwybodaeth drwy edrych ar yr achos unigol ac fe ddylid cefnogi'r penderfyniad hwnnw drwy gynhyrchu naill ai Protocol Rhannu Gwybodaeth neu Gytundeb Datgelu Data.

Mae'n rhaid i bob Protocol Rhannu Gwybodaeth neu Gytundeb Datgelu Data fod â diben a ddiffinnir yn glir ar gyfer rhannu'r wybodaeth ac mae'n rhaid eu cyflwyno i'r Uned Llywodraethu Gwybodaeth cyn i Bennaeth Gwasanaeth eu cymeradwyo.

Am fwy o wybodaeth ynghlŷn â hyn, dilynwch y ddolen ganlynol:

<http://intranet/doc.asp?cat=11338&doc=35157&Language=2>

MESURAU DIOGELWCH

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno mesurau diogelwch priodol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron.

Gosodir rheolaeth cyfrinair ar systemau cyfrifiadurol a, lle bod angen, trywydd archwilio a mynediad i ganfod a yw pob defnyddiwr wedi derbyn awdurdod llawn. Bydd pob system gyfrifiadurol newydd yn cael ei dylunio er mwyn cynnig mesurau diogelwch sy'n briodol ar gyfer lefel y data sy'n cael ei brosesu.

Yn ogystal, bydd gweithwyr yn cael gwybodaeth lawn am fesurau diogelwch cyffredinol a phwysigrwydd eu swyddogaeth yn llwyddiant y mesurau hynny drwy Bolisi Diogelu Gwybodaeth y Cyngor.

DELWEDDAU

Bydd y Cyngor yn sicrhau, lle bod angen, bod caniatâd wedi'i dderbyn gan yr holl bobl a fydd yn ymddangos mewn delwedd ffotograff, fideo neu gamera gwe, ac eithrio Teledu Cylch Caeedig. Bydd y Cyngor hefyd yn nodi'n glir pam ei fod yn defnyddio delwedd y person hwnnw, a pha ddefnydd a wneir ohono.

Mae canllawiau cyfreithiol y Comisiynydd Gwybodaeth yn nodi y gellir ystyried fod plentyn erbyn ei fod yn 12 oed yn meddu ar 'aedd fedrwydd digonol' i ddeall ei hawliau dan y Ddeddf. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi penderfynu y dylid sicrhau caniatâd rhieni hyd at 18 oed am y rhesymau a ganlyn:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

- yn gyfreithiol, mae plentyn dan gyfarwyddyd rhieni nes ei fod / bod yn 18 oed. Felly, pe bai plentyn ieuengach na'r oed hwn yn rhoi caniatâd ond fod eu rhiant yn gwrthod, penderfyniad y rhiant fyddai'n rhwymol yn gyfreithiol.
- yr oed cymwys er mwyn sefydlu contract yw 18 oed. Os yw plentyn yn sefydlu contract yn iau na'r oed hwnnw, ni fyddai'r contract yn rhwymol ar y plentyn. Fodd bynnag, dylid ystyried barn plant 16 oed a drosodd. Unwaith mae person yn cyrraedd 18 oed, nid oes angen caniatâd rhieni wedi hynny.

ATEBOLRWYDD

Dylid rhoi gwybod i holl weithwyr ac Aelodau y Cyngor beth yw eu cyfrifoldebau o ran sicrhau cydymffurfriad gyda'r Ddeddf Diogelu Data os ydynt yn dal data personol boed ar ffurf electronig neu gyffyrddadwy. Gallai methu cydymffurfio â'r polisi hwn arwain at gamau disgyblu.

UNED LLYWODRAETHU GWYBODAETH

Lleolir Uned Lywodraethu Gwybodaeth y Cyngor ym Modlondeb, a'i chyfrifoldeb yw hwyluso a rhoi cyngor ar gydymffurfriad y Cyngor gyda Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Diogelu Data 1998 ar lefel gorfforaethol, a chefnogi Gwasanaethau/ Adrannau'r Cyngor. Mae'r Uned yn rhan o'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Chwsmeriaid Corfforaethol.

Manylion cyswllt:

Uned Lywodraethu Gwybodaeth
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Gwasanaethau Gwybodaeth a Chwsmeriaid Corfforaethol
Bodlondeb
CONWY
LL32 8DU
Ffôn: 01492 574016

E-bost uned.llyw-gwyb@conwy.gov.uk

DIFFINIADAU

Gwrthrych y Data

Unrhyw unigolyn byw y prosesir data amdano neu amdani.

Data Personol

Mae data personol yn golygu data sy'n ymwneud ag unigolyn byw y gellir ei adnabod/hadnabod o'r data hwnnw neu o'r data hwnnw a gwybodaeth arall sydd ym meddiant, neu'n debygol o ddod i feddiant Y Cyngor. Er enghraifft os yw data yn ymwneud â gweithwyr, tenantiaid, cyflenwyr, dyledwyr, credydwyr, cwsmeriaid, cleientiaid, cysylltiadau busnes ac ati, cyfeirir at yr unigolion (a'r partneriaethau) hyn fel 'gwrthrych y data'.

Data Personol Sensitif

Mae data personol sensitif yn cyfeirio at wybodaeth yn ymwneud â tharddiad ethnig neu hil, daliadau gwleidyddol, daliadau crefyddol, aelodaeth o undeb llafur, bywyd rhywiol, iechyd neu gyflwr corfforol neu feddyliol, troseddau neu record droseddol gwrthrych y data.

Prosesu

Mae prosesu o safbwynt data (neu wybodaeth) yn golygu bron iawn unrhyw ddefnydd y gellir ei wneud o'r data, o gasglu'r data, ei ddefnyddio, ei sortio, a'i ddinistrio. Mae'n anodd dychmygu unrhyw weithred sy'n ymwneud â data nad yw'n gyfystyr â'i brosesu dan y diffiniad hwn.

Data Cyffyrddadwy

Data Cyffyrddadwy yw unrhyw system wybodaeth nad yw'n awtomataidd (ffeiliau papur, mynegai cardiau, rollerdex, microfiche nad yw'n awtomataidd) neu 'system ffeilio berthnasol'.

Lle bod ffeiliau cyffyrddadwy yn cyd-fynd â'r diffiniad o system ffeilio berthnasol, bydd y cynnwys naill ai wedi'i isrannu yn y fath fodd fel ei fod yn caniatáu'r chwiliwr i fynd yn syth i'r categori cywir a dod o hyd i'r wybodaeth a ofynnwyd amdani heb chwilio â llaw, neu bydd yn cynnwys mynegai sy'n caniatáu'r chwiliwr i fynd yn uniongyrchol i'r dudalen/tudalennau perthnasol.